| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **19 MEHEFIN 2018** |
| TEITL: | **DYDDIADAU CYFARFODYDD PENSIYNAU** |
| PWRPAS: | **GALLUOGI AELODAU I GYNLLUNIO'N BRIODOL** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae dyddiadau nifer o gyfarfodydd Pensiynau wedi cael eu gosod am y flwyddyn hyd at Mai 2019 yn barod. Mae'r dyddiadau isod er hwylustod.

## 2. DYDDIADAU'R PWYLLGOR PENSIYNAU

Y Pwyllgor Pensiynau yw'r corff sy'n gwneud **penderfyniadau** ar gyfer y Gronfa Bensiwn. Mae dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer gweddill y flwyddyn ddinesig fel a ganlyn:

**10 Hydref 2018 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gronfa Bensiwn**

Mae'r cyfarfod yma am 1:00yp yn Siambr Dafydd Orwig. Mae gwahoddiad i gyflogwyr y gronfa anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfod hwn. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn i'r rhai sydd yn mynychu ac mae'n gyfle iddynt wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.

Mae gwahoddiad i'r holl aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn i'r Cyfarfod Blynyddol.

Os oes angen i'r Pwyllgor Pensiynau wneud penderfyniad ym mis Hydref, bydd cyfarfod Pwyllgor yn cael ei drefnu naill ai cyn neu ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae'r cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Pensiynau, i ddelio gyda phenderfyniadau yn ystod y flwyddyn, wedi'u trefnu fel a ganlyn:

**8 Tachwedd 2018**

**17 Ionawr 2019**

**14 Mawrth 2019**

Mae aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn arfer mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, fel sylwebydd.

## 3. DYDDIADAU'R BWRDD PENSIWN

Cafodd Bwrdd Pensiwn Cronfa Gwynedd ei sefydlu yn 2015, gan gydymffurfio gyda gofynion y Llywodraeth. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am **drosolwg** ar reolaeth a gweithrediad y Gronfa Bensiwn. Nid yw'n gwneud penderfyniadau, ond gellir gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Mae chwe aelod ar y Bwrdd, tri yn cynrychioli'r cyflogwyr a thri arall yn cynrychioli'r aelodau. Cafodd eu hapwyntio trwy gyfweliad yn unol â threfn sefydlodd y Cyngor llawn.

Fel arfer, mae cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn yn cymryd lle pedair wythnos ar ôl cyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau. Mae dyddiadau'r cyfarfodydd am y flwyddyn wedi'u trefnu fel a ganlyn:

**16 Gorffennaf 2018**

**13 Rhagfyr 2018**

**5 Mawrth 2019**

**11 Ebrill 2019**

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn arfer mynychu bob cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn, ac yn atebol yno am benderfyniadau'r Pwyllgor.

## 4. DYDDIADAU'R PANEL BUDDSODDI

Mae aelodau o'r Pwyllgor Pensiynau hefyd yn aelodau o'r Panel Buddsoddi. Mae'r Panel yn cyfarfod yn chwarterol i graffu perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn. Mae hyn yn cynnwys derbyn adroddiadau arbenigol gan reolwyr buddsoddi ac ymgynghorydd y Gronfa Bensiwn. Mae unrhyw argymhellion gan y Panel yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Pensiynau ar gyfer gwneud penderfyniad ffurfiol.

Mae dyddiadau'r Panel Buddsoddi yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **13 Medi 2018** | **(swyddfeydd BlackRock, Llundain - teithio 12 Medi)** |
| **15 Tachwedd 2018** | **(swyddfeydd UBS, Llundain - teithio 14 Tachwedd)** |
| **Chwefror 2019** | **dyddiad i'w drefnu (Caernarfon)** |
| **Mai 2019** | **dyddiad i'w drefnu (Caernarfon)** |

## 5. DYDDIADAU CYDBWYLLGOR PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Mae aelodaeth y Cydbwyllgor sydd wedi'i sefydlu er mwyn llywodraethu pŵlio buddsoddiadau dros yr wyth cronfa bensiwn llywodraeth leol Gymreig yn cynnwys Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau (neu aelod arall o'r Pwyllgor) o bob cronfa.

Mae'r Cydbwyllgorau wedi'u trefnu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **11 Mehefin 2018** | **Caerdydd** |
| **25 Medi 2018** | **Gwynedd (Caernarfon)** |

Mae cyfarfod 11 Mehefin yn cychwyn am 2:00yp, ond fel arfer, mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng 10:00yb a 1:00yp, ac mae cyfleusterau gwe-ddarlledu ar gael ym mhob lleoliad.

Mae bob cylch o 4 cyfarfod yn cynnwys un cyfarfod yng Nghaerdydd, un cyfarfod ym Mhowys, a'r ddau gyfarfod arall yn cael eu cynnal yn y 6 lleoliad arall ar sail rota. Mae'r system hon wedi'i gytuno er mwyn uchafu mynediad rhanddeiliaid i'r cyfarfodydd cyhoeddus yma.

Mae Cyngor Sir Gâr, fel awdurdod lletya, yn trefnu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyd-lywodraethu gyda chyfleusterau cyfieithu llawn.

## 6. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i aelodau nodi'r dyddiadau perthnasol ar gyfer y cyfarfodydd ac i gynllunio'n briodol.